



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Arwain cydweithredu – un ystad gyhoeddus Cymru
Leading collaboration – one public estate Wales

Croeso i Gylchlythyr yr Haf 2023

ARGRAFFIAD
NAW

CYNNWYS

Cyflwyniad y Cadeirydd
Tudalen 2

Gwobrau Ystadau
Cymru 2023
Tudalen 3

Cynnydd cyllid –
Cyngor Tref Llanelli
Tudalen 4

Cynnydd cyllid –
Partneriaeth
Cydwasaethau
GIG Cymru
Tudalen 5

Dysgu am y newid yn
yr hinsawdd mewn
ffordd newydd
Tudalen 6

Astudiaeth Achos –
Neuadd Llanrhymni –
Trysor Cudd Caerdydd
Tudalen 7

Cornel Clare –
Cynaliadwyedd
Cymdeithasol
Tudalen 8

Ddiweddaraf am
Asbestos
Tudalen 10

Adroddiad Richard
Tudalen 11



CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Rwyf yn arbennig o falch o'n nawfed rhifyn o gylchlythyr Ystadau Cymru, sy'n ddeunydd darllen hanfodol i bawb sy'n ymwneud ag ystad gyhoeddus Cymru.



Beverly Owen

Gyda phopeth yn pwysu cymaint ar ein hamser a'r straen digynsail ar y pwrs cyhoeddus, mae cenhedaeth Ystadau Cymru sef “annog rhagoriaeth yn rheolaeth weithredol ystad sector cyhoeddus Cymru drwy gydweithio strategol a chanllawiau arferion da” yn bwysicach nag erioed.

Mae llawer iawn o waith o ansawdd da yn cael ei wneud yn ystad gyhoeddus Cymru ac rydyn ni am i chi helpu i rannu hyn yn ehangach ledled Cymru.

Os ydych chi'n arwain prosiect cydweithredol (neu wedi arwain un yn ddiweddar), byddwn yn eich annog i gystadlu yng Ngwobrau Ystadau Cymru 2023.

Bydd ein cylchlythyr diwethaf yn rhoi rhyw syniad i chi o'r mathau o brosiectau sydd wedi cystadlu ac wedi ennill y Gwobrau. Rydyn ni bob tro yn croesawu astudiaethau achos newydd, yn enwedig rhai sy'n dangos cydweithio, datgarboneiddio, ôl-osod neu ailfeddwl am y defnydd o'n hystad gyhoeddus.

Mae prinder rheolwyr ystadau medrus yng Nghymru yn cael ei gydnabod yn eang.

The Royal Institute of Chartered Surveyors (RICS) yn ddiweddar mai 55 yw oedran cyfartalog ei aelodau yng Nghymru.

Mae Clive Ball a Geoff Bacon, aelodau o'r Bwrdd, wedi gweithio gyda RICS a Phrifysgol De Cymru i gael achrediad ar gyfer y cwrs gradd Eiddo Tirol cyntaf i'w gynnig yng Nghymru ers bron i 20 mlynedd.

Bydd prentisiaethau gradd ar gael hefyd yn ystod y blynyddoedd nesaf gan nifer o brifysgolion yng Nghymru.

Er y bydd rhai blynyddoedd cyn i ni weld manteision hyn yn ein gweithlu, mae hon yn garreg filltir bwysig i'n partneriaid.

Mae llawer mwy i'w ddarllen yn y rhifyn hwn – byddwn i'n gadael i chi'n ei fwynhau.





GWOBRAU YSTADAU CYMRU 2023



AR AGOR NAWR

Mae Rebecca Evans AS, y Gweinidog sy'n noddi Ystadau Cymru a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, wedi lansio gwobrau Ystadau Cymru 2023 yn ffurfiol.

Byddem wrth ein bodd yn gweld eich prosiectau cydweithredol ar draws o Sector Cyhoeddus Cymru.

Mae prosiectau'r llynedd i'w gweld yn Rhifyn 8 y cylchlythyr:



DYMA'R CATEGORïAU AR GYFER ENWEBIADAU 2023:

CREU TWF ECONOMAIDD



DANGOS CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL



RHOI GWERTH CYMDEITHASOL



CREU ARLOESED



Cylchlythyr Ystadau Cymru: rhifyn 8 | LLYW.CYMRU



Mae rhagor o fanylion ar gael yn: Gwobrau Ystadau Cymru 2023 | LLYW.CYMRU




CYNNYDD CYLLID – CYNGOR TREF LLANELLI

YSTAFELLOEDD NEWID CYFLEUSTER CHWARAEON PENYGAER YN LUNIO!


Ar ôl trosglwyddo asedau'n llwyddiannus o Gyngor Sir Caerfyrddin i Gyngor Tref Llanelli, mae cyfleuster cymunedol mawr ei angen wedi cael ei adnewyddu.

Gan weithio mewn partneriaeth â **Phwyllgor Rheoli Penywaer** a **grŵp Cymuned Caru Lliedi**, mae **Cyngor Tref Llanelli** wedi trawsnewid hen gyfleuster newid chwaraeon ym Maes Chwaraeon Penywaer.


Mae'r prosiect wedi creu nifer o fanteision, gan gynnwys:



Cyfleusterau newid gwell




Cyfleusterau storio gwell




Gosod toiled Changing Places at ddefnydd y gymuned




Gosod cegin fach at ddefnydd y gymuned a chwaraeon



Creu man pwrpasol at ddefnydd y clwb a'r gymuned



Ystafell newid newydd ar wahân i ferched



Effeithlonrwydd ynni gwell o ganlyniad i wella'r inswleiddio a'r ffenestri

Gweithiodd y grŵp llywio ar y cyd â nifer o grwpiau ac unigolion o'r gymuned leol, ac mae manteision pellgyrhaeddol i'r cyfleuster bellach.

Gall Ysgolion Dewi Sant a Phenygaer ddefnyddio'r cyfleuster nawr ar gyfer eu haddysg gorfforol a'u dysgu yn yr awyr agored, a bydd Partneriaeth Gymunedol Llanelli a'r Rhwydwaith

Amlddiwylliannol yn cynnal gweithgareddau ac allgymorth yn y cyfleuster gan ddefnyddio'r gofod cymunedol.

Oherwydd llwyddiant y prosiect hwn, mae gan Grŵp Cymunedol Caru Lliedi gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol – felly cadwch lygad!



CYNNYDD CYLLID – PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU

DYFODOL EIN PROFFESIWN – AILSEFYDLU CWRS EIDDO TIROL – CLIVE BALL

Ar ôl bwloch o bron i 20 mlynedd, ar ôl i gwrs gradd Rheoli a Phrisio Eiddo ym Mhrifysgol Morgannwg gynt ddod i ben ar ddechrau'r 2000au, bydd gradd BSc (Anrh) mewn Eiddo Tirol yn dechrau ym mis Medi 2023 ar gampws Trefforest ym Mhrifysgol De Cymru.



Roedd gan Brifysgol Morgannwg a'i rhagflaenydd, Polytechnig Cymru (y 'Coleg Gwybodaeth') draddodiad hir o gyrsiau amgylchedd adeiledig ac arolygu, gan gynhyrchu llawer iawn o'r syrfewyr siartredig practis cyffredinol sy'n gweithio yn ne Cymru ar hyn o bryd.

Mae nifer o ddewisiadau hyblyg ar gael i astudio'r cwrs, sef:

- » 3 blynedd – amser llawn
- » 4 blynedd – amser llawn gyda blwyddyn ryngosod ar leoliad
- » 5 mlynedd – rhan-amser (gan gynnwys drwy'r cynllun Rhwydwaith75).

*** mae'r holl ddewisiadau hyn ar gael yn uniongyrchol neu drwy flwyddyn sylfaen.**

Mae'r radd Eiddo Tirol wedi deillio o gais i Brifysgol De Cymru gan Clive Ball (Pennaeth Eiddo Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ac aelod o Fwrdd Ystadau Cymru) ar ôl iddo ddod i wybod bod Prifysgol De Cymru yn datblygu cwrs Arolygu Adeiladau.

Arweiniodd ymateb calonogol i'w gais cychwynnol at sefydlu gweithgor, at arolwg o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat (i gael tystiolaeth o'r galw) ac at ddatblygu achos cyfiawnhad busnes a gymeradwywyd gan Brifysgol De Cymru yn hydref 2022, cyn dilysu cyrsiau Prifysgol De Cymru ym mis Mawrth 2023.

Yn dilyn hynny, sefydlwyd Bwrdd Cynghori'r Diwydiant i helpu i lunio modiwlau'r cwrs a'u cynnwys mewn ymateb i'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant a'r proffesiwn, ynghyd â'r nod o sefydlu cysylltiadau rhwng Prifysgol De Cymru, y radd, a'r diwydiant/proffesiwn yng Nghymru.

Mae'r cwrs hefyd yn cael ei ddylunio mewn trafodaeth â Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig gyda chais am achrediad RICS i'w gyflwyno yn ystod 2023.

Mae rhagor o wybodaeth am y cwrs ar gael:



**Ar wefan Prifysgol De Cymru –
BSc (Anrh) Eiddo Tirol |
Prifysgol De Cymru**

**Ar wefan Rhwydwaith75 –
Cyrsiau Gradd |
Prifysgol De Cymru**



DYSGU AM Y NEWID YN YR HINSAWDD MEWN FFORDD NEWYDD

Llythrennedd Carbon

Dros y misoedd diwethaf, mae Ystadau Cymru, mewn partneriaeth â Cynnal Cymru, wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi Llythrennedd Carbon. Aeth Amanda i'r sesiynau ac roedd hi'n awyddus i rannu'r hyn mae wedi'i ddysgu.

Mae'r cwrs wedi cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r Prosiect Llythrennedd Carbon sy'n deillio o Fanceinion ac sydd bellach yn cael ei gydnabod ledled y byd.

Mae'n unigryw oherwydd mae modd ei addasu i bawb, boed mewn rhinwedd bersonol, mewn lleoliad addysgol neu mewn sefydliad. Mae'r dull gweithredu cyffredinol yn ysgogi sgysiau mwy onest, yn enwedig mewn gweithgareddau grŵp.



Sefydliadau – Y Prosiect Llythrennedd Carbon

Cyn y cwrs, ychydig oeddwn i'n ei wybod am y newid yn yr hinsawdd.

Roedd ein dysgu'n cynnwys:

- » Nodi'r grŵp o nwyon sy'n gyfrifol am y newid yn yr hinsawdd
- » Meddwl am sut mae'r nwyon hyn yn rhan o'n hasedau a'n bywydau
- » Mesur ôl troed carbon mewn amrywiaeth o gynnyrch a gweithgareddau bob dydd
- » Deall a rhannu dull gweithredu ein sefydliad ar gyfer datgarboneiddio
- » Trafodaeth agored am yr anawsterau a'r rhwystrau wrth wneud gwelliannau yn ein sefydliadau.

Nes i ddysgu, ydy mae bod yn llythrennog o ran carbon yn edrych fel her aruthrol, ond mae'n ymwneud yn fwy â sut rydyn ni'n addasu ein ffordd o feddwl a'n dull personol o ddelio â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'n anodd iawn dysgu cyn lleied o amser sydd gennym i leihau ein hallyriadau carbon, ond byddwn yn eich annog i fod yn agored i ddysgu. Does neb yn disgwyl i chi gael yr holl atebion, dim ond i allu dysgu a chymryd rhan mewn trafodaeth dan arweiniad.

Efallai fod sefydliad ar gael a fydd yn gallu eich helpu gyda phrosiect maen nhw'n ei wneud.

Mae'n golygu gwell cydweithredu ac fel aelodau o Ystadau Cymru, mae angen inni fanteisio ar bob cyfle i gymryd yr awenau.



Llythrennedd Carbon – Cynnal Cymru

NEUADD LLANRHYMNI – TRYSOR CUDD CAERDYDD

Yng ngwanwyn 2019, ailagorwyd Neuadd Llanrhymni yng Nghaerdydd.

Adeilad hardd yn nwyrain y ddinas a oedd wedi bod yn segur ers blynyddoedd lawer – hynny yw, nes creu Ymddiriedolaeth Gymunedol Neuadd Llanrhymni!

Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth, sy'n elusen gofrestrdig, yn 2016. Y nod oedd llywio'r gwaith o adfywio ac ailddatblygu Neuadd Llanrhymni i fod yn ganolfan gymunedol hanfodol a ffyniannus.



Adeiladwyd Neuadd Llanrhymni yn 1450 yn wreiddiol ac mae wedi cael ei drawsnewid mewn nifer o ffyrdd dros y blynyddoedd. Mae wedi bod yn gartref i deuluoedd pwysig yng Nghymru, gwesty, ac yn fwyaf diweddar yn dafarn.

Rhoddodd y bragdy'r Neuadd yn ôl i Gyngor Caerdydd yn 2013, ac erbyn hynny roedd yr adeilad mewn cyflwr gwael iawn.

Yn 2015, cysylltodd perchennog busnes lleol â'r cyngor gyda chynllun adnewyddu cynhwysfawr a rhoddwyd les 30 mlynedd iddo, ynghyd â chaniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r safle.

Ar ôl llawer o waith adfer gofalus, mae'r adeilad bellach yn ased cymunedol defnyddiol a hygyrch.

Mae'r Neuadd yn cynnig man ac amwynderau i'r gymuned a busnesau lleol. Mae hynny wedi bod yn brin yn yr ardal gyfagos ers tro.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys amrywiaeth canolfan les a o ystafelloedd i'w llogi, stiwdio recordio cerddoriaeth, ystafell celf a chreffft, canolfan fwyd gymunedol (Y Pantri), twnnel garddio polythen, gweithfannau parod, crèche gofal plant, caffi cymunedol, canolfan bwyd anifeiliaid anwes, a chanolfan aml-ddefnydd ar gyfer therapïau cyfannol.

Ochr yn ochr â darparu amrywiaeth o gyfleusterau hanfodol, mae'r Neuadd hefyd wedi cefnogi pobl leol drwy gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli.

Yn 2022 ymlaen, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflogi 11 o bobl leol ac wedi elwa ar 12 o wirfoddolwyr rheolaidd.

Mae Neuadd Llanrhymni yn enghraifft wych o'r hyn y gall cymuned ei wneud drwy gydweithio.



Cornel Clare

Cynaliadwyedd Cymdeithasol

Tyfu Sefydliad Cynaliadwy

Cynaliadwyedd Cymdeithasol


Yn dilyn rhifyn 6 ein cylchlythyr, lle roeddem wedi trafod y Colofnau Cynaliadwyedd, bydd yr adran hon yn edrych yn fanylach ar gynaliadwyedd cymdeithasol.

Hanfod cynaliadwyedd cymdeithasol yw creu lleoedd sy'n deall ac yn ystyried yr hyn sydd ei angen ar bobl yn yr amgylcheddau lle maen nhw'n byw ac yn gweithio.

Drwy gyfuno dyluniad mannau ffisegol â dyluniad y byd cymdeithasol, gallwn greu seilwaith sy'n cefnogi bywyd cymdeithasol a diwylliannol.


Mae hyn yn cynnwys darparu amwynderau, systemau ar gyfer trafod â dinasyddion a man sy'n gallu datblygu dros amser.

Mae'n elfen hanfodol o hirhoedledd a lles cymuned ond mae'n aml yn cael ei esgeuluso, gyda chynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd fwyaf blaenllaw.



Mae cymuned yn gymaint o amgylchedd cymdeithasol ag un ffisegol, felly beth yw elfennau allweddol cynaliadwyedd cymdeithasol?

Mae Amartya Sen, enillydd Gwobr Nobel, yn awgrymu bod gan gynaliadwyedd cymdeithasol amrywiaeth o elfennau, gan gynnwys:




O safbwynt sefydliadol, hanfod cynaliadwyedd cymdeithasol yw deall yr effaith y gallai eich prosesau ei chael ar bobl a chymdeithas.

Yn ôl UN Global Compact, dylai sefydliadau fod yn rhagweithiol wrth reoli a nodi effeithiau busnes posibl ar gyflogwyr, ar weithwyr yn y gadwyn gwerth, ar gwsmeriaid ac ar gymunedau lleol.

Felly sut gall sefydliad sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol?

Y peth allweddol yw meddwl am randdeiliaid – yn fewnol (cyflogeion, cyflenwyr a defnyddwyr) ac yn allanol (y gymuned leol neu gymdeithas ehangach)



Rhanddeiliaid mewnol: cyflogeion a'r gadwyn gyflenwi Dylai arweinwyr sicrhau bod hawliau cyflogeion wrth galon y gadwyn gyflenwi, nid yn eilradd i enillion ariannol.

Dylid blaenoriaethu tri maes:

1. Arferion Iechyd a Diogelwch.
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
3. Arferion Llafur Teg.

Rhanddeiliaid allanol: yn y gymuned a chymdeithas

Dylai sefydliadau feddwl am sut i drafod â'r gymuned mewn ffordd ragweithiol.

Sut gall cymdeithas elwa o'ch arferion busnes yn hytrach na'r arferion hynny sy'n achosi niwed neu ragor o anghydraddoldeb.

Gallai hyn olygu cydweithio â grwpiau cymunedol sy'n hybu newid cadarnhaol, gwella neu greu ased cymunedol, neu gynnwys nwyddau a wasanaethau lleol yn y gadwyn gyflenwi.

Efallai nad yw cynaliadwyedd cymdeithasol wedi'i ddiffinio mor glir â chynaliadwyedd amgylcheddol, ond mae'n dal yn hanfodol. Gall sefydliadau wynebu disgwyladau gwahanol mewn gwahanol leoliadau, dros amser neu wrth iddynt dyfu.

Y peth allweddol yw gweithio gyda'ch rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen arnynt i ffynnu yn y gwaith neu yn eu cymuned leol.

Mae'r dolenni isod yn cynnwys rhagor o wybodaeth:



Cynaliadwyedd Cymdeithasol | UN Global Compact

ISO – ISO 26000 — Cyfrifoldeb cymdeithasol

GRI – Hafan (globalreporting.org)

Hafan – Rhwydwaith Cynaliadwyedd Busnes (NBS)

Ddiweddaraf am Asbestos

OEDDECH
CHI'N GWYBOD?

Ystadau Cymru is-grŵp yn benodol ar gyfer ymchwilio, darparu cyngor a hybu'r arferion gorau drwy ddosbarthu'r arferion gorau o ran trin asbestos?



Deilliodd y gwaith o gais gan TUC Cymru ac roedd yn cynnwys arolwg o'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae iechyd a diogelwch yn faes pwysig ac mae angen ei reoli'n fwy cyson ar lefel strategol.

Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos bod arferion da ledled Cymru.

Roedd y safonau ar gyfer monitro, trin a chael gwared ar asbestos yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dda ar y cyfan.

Roedd yr arolwg hefyd yn nodi rhai meysydd sy'n peri pryder, gyda safonau amrywiol o ran gwybodaeth a chynllunio olyniaeth ar gyfer staff allweddol.

Ar ôl nodi angen am gymorth, bydd Ystadau Cymru yn caffael cwrs ymwybyddiaeth o asbestos ar-lein, dwyieithog sydd wedi'i anelu'n benodol at y rhai sy'n gweithio mewn Cyngorau Tref a Chymuned.

Byddwn hefyd yn edrych ar y ffordd orau o wreiddio arferion da.



I gael rhagor o wybodaeth am safonau ac arferion gorau'r diwydiant, ewch i safonau ac arferion gorau'r diwydiant asbestos ([hse.gov.uk](https://www.hse.gov.uk)).

Adroddiad Richard

Mae Richard Baker –

arweinydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Ystadau Cymru, yn rhoi'r ddiweddaraf am Lywodraeth Cymru yn ei golofn reolaidd ar gyfer y cylchlythyr.



Roedd 2022-23 yn flwyddyn brysur – yn agos at fod yn llethol ar adegau o ran y gwahanol heriau ac ychwanegiadau i'n llwyth gwaith.

Fodd bynnag, rydyn ni wedi cyflawni cymaint, gan gynnwys cyflawni'r cynllun grant ACPW yn llwyddiannus.

Fe wnaethom ariannu £990,000 o'r grantiau cyfalaf gwerth £1m a £300,000 o'r refeniw gwerth £600,000.

Roedd diffyg capasiti ymysg ymgynghorwyr datgarboneiddio yn golygu nad oeddem yn gallu cyflawni mwy. Byddwn yn mynd ar drywydd y prosiectau a ariannwyd gennym ac yn cyhoeddi astudiaethau achos i rannu'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud.

Roeddwn yn falch o gael fy mhenodi'n gyd-bennaeth y Proffesiwn ar gyfer eiddo yn Llywodraeth Cymru ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Mae'r penodiad hwn yn arwain at gyfrifoldebau o ran darparu a hyrwyddo cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, a chynyddu amlygrwydd y proffesiwn yn Llywodraeth Cymru.

Rwy'n falch o'r gwaith mae'r proffesiwn yn ei wneud yn Llywodraeth Cymru ac ar ei chyfer.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu ein cyfraddau meddiannaeth swyddfeydd gan fod gweithio hybrid wedi dod yn ffordd ddiofyn o weithio.

Mae hyn yn anochel wedi datgelu bod gennym fwy o le swyddfa nag sydd ei angen arnom, ac felly rydyn ni wedi bod yn chwilio am gyfleoedd i osod lle dros ben yn ein hadeiladau rhydd-ddaliadol.

Mae sicrhau bod ein hadeiladau cyhoeddus yn llawn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ariannol ac yn cadw arian ym mhws y wlad.

Mae ad-drefnu'r ystad gyhoeddus yn ei chyfanrwydd hefyd yn golygu ein bod yn gwella ein heffeithlonrwydd carbon cyfunol.

Mae'r Gronfa Rhyddhau Tir ac Adeiladau yn dal yn agored i ymgeiswyr, gyda chyllid ar gael i gyflawni prosiectau ar draws blynyddoedd ariannol.



**Cysylltwch â
yrls-adranTir.LandDivision@
llyw.cymru am ragor o fanylion.**